**Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll**
**Cofnodion Cyfarfod 23ain Ebrill 2013**

**Presennol:** A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, J. Roberts, B. Jones, H. Huws, D. Williams, E. Parry, G. Parry.

**1. Ymddiheuriadau**: J. A. Edwards, G. C. Jones, A. Thomas, J. Evans
Nodwyd mai hon fydd cyfarfod olaf Ifan Bebb, John Arwel Edwards ac Eifion Jones, diolchwyd iddynt i gyd am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol.

**2. Datganiadau Diddordeb** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

**3. Materion Cyngor Sir**

- Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal i drafod dyfodol cronfa arian Shell a sut i'w ddiogelu ar gyfer Ynys Môn i'r dyfodol.

**4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 26 Mawrth 2013**
Cynigwyd gan D. Williams ac eiliwyd gan E. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**
5.1 Achos Llys Mr Barry Challinor parthed Lôn Cil y Graig wedi'i ohirio tan 22ain Mai.
5.2 Ieuan Jones, Glanhawr y Gors wedi gadael ei swydd a dychwelyd goriadau'r cwt i'r Cadeirydd. Colin Roberts yn parhau i gyflawni gwaith glanhau dros dro.
Y Clerc i ofyn i Un Llais Cymru am gyngor ynglŷn â sefyllfa I. Jones yn gadael heb roi rhybudd swyddogol.
5.3 Llwybr y Fynwent - derbyniwyd prisiau gan K. M. Williams (£4774 & TAW) a J.C. Lewis (£5730 & TAW) am gyflawni'r gwaith o greu llwybr newydd yn y fynwent. Cynigwyd gan H. Huws ac eiliwyd gan J. Roberts bod y Cyngor yn derbyn pris K. M Williams. Yn ogystal nodwyd bod angen gwaith i'r traeniau ar y Gors a bod pris wedi'i dderbyn o £6600 gan gwmni R. G. Hire. Trafodwyd y ddau gynllun gwaith a phenderfynwyd gofyn am fenthyciad ar gyfer llwybr y fynwent. Y Clerc i wneud cais am fenthyciad o £4770 i'r "Public Works Loan Board".
5.4 Mrs Marian Roberts wedi plannu blodau yn y fynwent er cof am ei diweddar gwr John "Meirion" Roberts.
5.5 Defaid yn y fynwent - y broblem bellach wedi'i ddatrys. Nodwyd bod defaid ym Maes Eilian a Carreg y Gad a bod y rhain yn dod o dir preifat. Y cadeirydd am gael gair gyda'r perchennog.
5.6 Twmpathau Cil y Graig - nodwyd nad yw'r Cyngor Sir yn gosod unrhyw dwmpathau newydd ar hyn o bryd. Mae gwaith trwsio tyllau yn cael blaenoriaeth.
5.7 Ffens Clwb Bowlio wedi'i archebu.
5.8 Polyn lamp wedi plygu ar Lôn Refail gyferbyn a stad Y Wern. Y Clerc i adrodd i'r Cyngor Sir.

**6. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 16 Ebrill 2013**
Cynigwyd gan A. Williams ac eiliwyd gan B. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**7. Materion yn codi o'r cofnodion**
7.1 Drws y pafiliwn - disgwyl ymateb gan H. Thomas
7.2 Dwr ar gae'r Gors - wedi'i drafod yn eitem 5.3

**8. Cofnodion Pwyllgor Cyllid 16 Ebrill 2013**
Cynigwyd gan A. Mummery ac eilwyd gan I. Bebb. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**9. Materion yn codi o'r cofnodion**
9.1 Cytunwyd i roddi £100 i Sefydliad y Merched tuag at yr amgueddfa newydd yn y tolldy.

**10. Ceisiadau Cynllunio**
31C404 Sunridge - dim sylw
31C403 Tregarne - dim sylw
**35**

**11. Cyfrifon Mis Ebrill 2013**
Cyflwynwyd taenlen gwariant a derbyniadau mis Ebrill yn ogystal â thaenlen gwariant yn erbyn y gyllideb. Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan D. Williams. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

**12. Gohebiaeth**
12.1 CSYM - penderfyniadau cynllunio
12.2 Un Llais Cymru - Angen enwebu 2 gynrychiolydd i bwyllgor ardal Un Llais Cymru. Gohirio tan y cyfarfod nesaf.
12.3 CSYM - canlyniadau etholiad diwrthwynebiad wardiau Braint a Gwyngyll. Nodwyd nad yw I. Bebb. J. A. Edwards ac E. Jones wedi sefyll y tro yma. Mae un aelod newydd yn ward gwyngyll sef Meirion Jones. Mae dwy sedd wag yn ward Braint. Disgwyl cyfarwyddid pellach ynglyn a llenwi'r ddwy sedd gan y Cyngor Sir.
12.4 Copi o lythyr gan Eifion Jones yn ymddiswyddo o lywodraethwyr yr ysgol gynradd. Bydd angen penodi aelod newydd yn ei le gan ystyried Cyngor Cymuned Penmynydd.
12.5 Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.
12.6 Cylchgrawn Y Llais
12.7 Cylchgrawn Play Wales

**12. Unrhyw Fater Arall**
12.1 Nodwyd nad oedd Carwyn Jones AS wedi ymateb i'r llythyr aeth allan ynglyn a chynlluniau National Grid. H. Huws wedi drafftio llythyr arall i'w anfon ato. Y Clerc i weithredu.
12.2 Maes Parcio'r Gors - nodwyd bod y maes parcio yn orlawn ar adegau. Y Cyngor newydd i'w drafod. Nodwyd bod tyllau yn wyneb y maes parcio ger y llefydd parcio i'r anabl. Y Clerc i drefnu cael llenwi'r tyllau.
12.3 Emyr Evans wedi cwyno bod hysbyseb etholiad wedi'i osod ar hysbysfwrdd y Clwb Bowlio. Nodwyd bod yr hysbysfwrdd mewn lle cyfleus ar gyfer y cyhoedd a bod y safle'n eiddo i'r Cyngor Bro.
12.3 Adroddodd Ifan Bebb ei fod yn falch o fod yn aelod o'r Cyngor Bro ers dros 20 mlynedd ac wedi bod yn rhan o Gyngor sydd wedi cyflawni llawer o waith e.e. Yr ysgol feithrin, y cae pêl droed. Nodwyd ei brif reswm am ymddiswyddo oedd ei fod yn treulio llawer o amser yng Nghaerdydd yn gwarchod ei wyrion. Diolchodd i'r cynghorwyr a'r clerc.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 28 Mai 2013 am 7.00yh

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....(Dyddiad)